*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/12/18** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dyddiadau Cyfarfodydd 2019** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1** Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2019. Bydd hysbysiad ymlaen llaw o'r dyddiadau o gymorth i aelodau a swyddogion gyda'u hamserlenni.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod aelodau'n nodi dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2019.

**GWYBODAETH**

4 Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer yr holl gyfarfodydd hyd Mehefin 2019 ym mis Mehefin 2018.

5 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiedig) 2018, mae'r dyddiadau ar gyfer cyflwyno a chyhoeddi y datganiad o gyfrifon wedi newid; maent nawr angen cyflwyno'r ddogfen i Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 31 Mai i'w chyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf. Er mwyn bodloni'r newid hwn, mae dyddiadau cyfarfodydd y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn yr haf wedi newid; bydd y Pwyllgor Archwilio yn archwilio'r cyfrifon mewn cyfarfod ar 22 Gorffennaf a, gyda chytundeb yr Awdurdod, bydd y Panel Gweithredol yn defnyddio awdurdod dirprwyedig i gymeradwyo'r cyfrifon mewn cyfarfod ar 29 Gorffennaf.

**Yr Awdurdod Tân ac Achub**

6 Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd o'r Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r cyfarfod blynyddol i'w gynnal cyn ddiwedd Mehefin fan bellaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol.

7 Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod:

Dydd Llun 18 Mawrth 2019
Dydd Llun 17 Mehefin 2019
Dydd Llun 16 Medi 2019
Dydd Llun 16 Rhagfyr 2019

**Y Panel Gweithredol**

8 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Panel Gweithredol, sydd i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy am 10.00 y bore:

Dydd Llun 11 Chwefror 2019
Dydd Llun 13 Mai 2019
Dydd Llun 29 Gorffennaf 2019
Dydd Llun 21 Hydref 2019

**Pwyllgor Archwilio**

9 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, sydd i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy am 2.00 y pnawn:

Dydd Llun 28 Ionawr 2019
Dydd Llun 22 Gorffennaf 2019
Dydd Llun 9 Medi 2019

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ddim yn berthnasol |
| Cyllideb | Ddim yn berthnasol |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Sefydlog ATAGC a'r cylch gorchwyl perthnasol.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staffio | Ddim yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg/<br>Y GYMRAEG | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risgiau | Ddim yn berthnasol |